Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru – dogfen yn crynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad

# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................ 3
Crynodeb o'r ymatebion ........................................ 6
Themâu allweddol ........................................ 16
Crynodeb o'r ymatebion i Adroddiadau Amgylcheddol y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 20
Y camau nesaf ........................................ 24

# Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) yn amlinellu fframwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn effeithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i nodi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd drwy Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd ac yna i lunio Mapiau Rhybuddion Llifogydd a Pherygl Llifogydd. Yna mae gennym ddyletswydd i gynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) sy’n amlinellu ein hamcanion a’n mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli’r perygl llifogydd a nodwyd yn y cyfnodau cynharach hyn.

Lluniwyd ein CRhPLlau blaenorol (y cylch cyntaf) yn 2016 ar raddfa Ardal Basn Afon ac roeddent yn cwmpasu Gorllewin Cymru, Afon Hafren ac Afon Dyfrdwy. Lluniwyd CRhPLlau ar gyfer Afon Hafren ac Afon Dyfrdwy ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Y tro hwn rydym wedi mabwysiadu dull gwahanol drwy lunio ein CRhPLl o safbwynt Cymru gyfan.

Mae ein CRhPLl yn rhoi trosolwg o ble yng Nghymru sydd mewn perygl o lifogydd, a’ch cyfeirio at ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth o’n mapiau rhyngweithiol. Mae'n nodi Amcanion, Blaenoriaethau a Mesurau Cymru gyfan ar gyfer rheoli'r perygl llifogydd ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am lefel y perygl, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi’i gynllunio ar gyfer y cymunedau sy’n wynebu’r perygl llifogydd mwyaf.

Buom yn ymgynghori ar ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft i Gymru rhwng 1 Mawrth a 24 Mai 2023. Roedd y cynllun drafft yn nodi cynigion ar gyfer rheoli’r perygl o lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a’r môr ledled Cymru am y chwe blynedd nesaf a thu hwnt. I gyd-fynd â'r cynllun roedd adroddiad amgylcheddol drafft, yn dogfennu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft.

## Cwestiynau’r ymgynghoriad

Fe wnaethom ni ofyn y cwestiynau canlynol yn ystod yr ymgynghoriad i gael eich barn ar ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.

Cwestiynau am yr atebydd

1: Beth yw eich enw?

2: Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

3: Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, busnes neu sefydliad?

Amcanion a blaenoriaethau

4: Ein prif amcan o fewn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yw “Lleihau’r perygl i fywyd a chymunedau o ganlyniad i lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a’r môr”. Ydych chi’n cytuno gyda’r amcan hwn?

5: Rydym wedi nodi 14 o flaenoriaethau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. A ydych yn cytuno â’r blaenoriaethau hyn?

Mesurau cenedlaethol a lleol

6: O ran y Mesurau Cenedlaethol a nodir yn y cynllun, a ydych yn cytuno â’r mesurau hyn?

7: O ran y Mesurau Lleol a nodir ym mhob un o’r adrannau lleol sy’n seiliedig ar le, a ydych yn cytuno â’r mesurau hyn?

8: A yw eich adborth yn cyfeirio at faes penodol o’r cynllun?

9: I ba raddau ydych chi’n meddwl bod y blaenoriaethau a’r mesurau a nodir yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn cefnogi ac yn cyfrannu at gyflawni’r uchelgeisiau yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Strategaeth FCERM) Llywodraeth Cymru?

Cysylltiadau ehangach

10: I ba raddau y mae'r mesurau yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn helpu i sicrhau buddion lluosog ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'r amgylchedd ehangach?

11: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn ystyried effeithiau tebygol perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd?

Ystyried yr amgylchedd

12: A ydych yn cytuno â chasgliadau'r Adroddiad Amgylcheddol?

13: A ydych yn cytuno â chasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft?

14: A oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol pellach, yn gadarnhaol neu’n negyddol, i’r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft y credwch y dylid eu hystyried?

15: A oes cyfleoedd pellach i wella unrhyw effeithiau amgylcheddol cadarnhaol neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol y dylid eu hystyried ar gyfer y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol?

Ystyriaethau’r Iaith Gymraeg

16: A allai'r cynllun effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

17: A oes modd i ni gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg neu ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg?

18: A oes unrhyw agweddau o’r cynllun a allai roi pobl o dan anfantais wrth ddefnyddio’r Gymraeg?

19: Ydych chi'n credu bod y cynllun yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiynau terfynol

20: Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft hefyd yn darparu ystod o wybodaeth sy'n gosod y cyd-destun strategol ar gyfer y cynllun hwn a hefyd yn darparu gwybodaeth am raddfa'r perygl llifogydd ledled Cymru. A oedd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi?

21: Yn gyffredinol, sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o ganfod a llywio'r wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft?

22: A oes unrhyw adborth arall yr hoffech ei roi ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft?

Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i ddiwygio a chwblhau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd cyn ei gyhoeddi.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft a nodi sut y byddwn yn ystyried yr ymatebion hynny ar gyfer y cynllun terfynol.

# Crynodeb o'r ymatebion

Cawsom 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft. Derbyniwyd 21 o ymatebion gan sefydliadau, 17 gan unigolion a 2 ymateb 'arall'.

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a ganlyn:

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Y Groes Goch Brydeinig

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion

Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (Cymru)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Undeb Amaethwyr Cymru

Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru)

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Cymuned Llangatwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Mynwy

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru)

Cyngor cenedlaethol penaethiaid tân

Cyfoeth Naturiol Cymru (swyddogaeth ymgynghorai statudol)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Trafnidiaeth i Gymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam


Mae'r adran ganlynol yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn. Ar y cyfan, roedd ein hymatebwyr yn hapus gyda'r mesurau a'r wybodaeth sydd wedi'u cynnwys yn y CRhPLl. Ochr yn ochr â phob cwestiwn, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ac adborth. Rydym wedi adolygu a dadansoddi'r adborth hwn ac wedi nodi nifer o themâu allweddol a gafodd eu hystyried yn fanylach gan wneud newidiadau lle bo angen ar gyfer y CRhPLl terfynol. Ymdrinnir â'r themâu allweddol a nodwyd drwy'r ymgynghoriad yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

## Amcanion a blaenoriaethau

**Cwestiwn 4 yn yr ymgynghoriad:** Ein prif amcan o fewn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yw “Lleihau’r perygl i fywyd a chymunedau o ganlyniad i lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a’r môr”. A ydych yn cytuno â'r amcan hwn?

Cafwyd 35 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 32 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â'r amcan.


Ffigur 1: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 4 yn yr ymgynghoriad ar yr amcan.




**Cwestiwn 5 yn yr ymgynghoriad:** Rydym wedi nodi 14 o flaenoriaethau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. A ydych yn cytuno â’r blaenoriaethau hyn?

Cafwyd 35 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 33 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â'r blaenoriaethau.

Ffigur 2: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 5 yn yr ymgynghoriad ar flaenoriaethau.





## Mesurau cenedlaethol a lleol

**Cwestiwn 6 yn yr ymgynghoriad:** O ran y Mesurau Cenedlaethol a nodir yn y cynllun, a ydych yn cytuno â'r mesurau hyn?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd 33 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â'r mesurau Cenedlaethol.


Ffigur 3: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 6 yn yr ymgynghoriad ar y mesurau Cenedlaethol.




**Cwestiwn 7 yn yr ymgynghoriad:** O ran y Mesurau Lleol a nodir ym mhob un o'r adrannau lleol sy'n seiliedig ar le, a ydych yn cytuno â'r mesurau hyn?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd 26 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â'r mesurau lleol.


Ffigur 4: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 7 yn yr ymgynghoriad ar y mesurau Cenedlaethol.




**Cwestiwn 8 yn yr ymgynghoriad:** A yw eich adborth yn cyfeirio at faes penodol o’r cynllun?

Cafwyd 36 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn.


Ffigur 5: Siart bar yn dangos y rhaniad o ymatebion ar gyfer cwestiwn 8 yn yr ymgynghoriad yn dangos ym mha faes o'r cynllun yr oedd gan yr ymatebwr ddiddordeb ynddo.




**Cwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad:** I ba raddau ydych chi’n meddwl bod y blaenoriaethau a’r mesurau a nodir yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn cefnogi ac yn cyfrannu at gyflawni’r uchelgeisiau yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Strategaeth FCERM) Llywodraeth Cymru?

Cafwyd 35 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 24 o ymatebwyr yn cytuno’n llwyr neu’n rhannol fod y blaenoriaethau a’r mesurau a nodir yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn cefnogi ac yn cyfrannu at Strategaeth FCERM Cymru.

Ffigur 6: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad ar sut mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn cyfrannu at gyflawni Strategaeth FCERM Cymru.





## Cysylltiadau ehangach

**Cwestiwn 10 yn yr ymgynghoriad:** I ba raddau y mae'r mesurau yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn helpu i sicrhau buddion lluosog ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'r amgylchedd ehangach?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd 26 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol y byddai'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn sicrhau buddion lluosog ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'r amgylchedd ehangach.


Ffigur 7: Siart bar yn dangos y rhaniad o ymatebion ar gyfer cwestiwn 10 yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd sy'n darparu buddion lluosog.



**Cwestiwn 11 yn yr ymgynghoriad:** I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn ystyried effeithiau tebygol perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd 31 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol fod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn ystyried effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd.

Ffigur 8: Siart bar yn dangos y rhaniad o ymatebion i gwestiwn 11 yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd sy'n ystyried newid yn yr hinsawdd.





## Ystyried yr amgylchedd

**Cwestiwn 12 yn yr ymgynghoriad:** A ydych yn cytuno â chasgliadau'r Adroddiad Amgylcheddol?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd 17 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â chasgliadau'r Adroddiad Amgylcheddol.


Ffigur 9: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 12 yn yr ymgynghoriad ar gasgliadau'r adroddiad amgylcheddol.




**Cwestiwn 13 yn yr ymgynghoriad:** A ydych yn cytuno â chasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft?

Cafwyd 35 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 14 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol â chasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft. Dywedodd 17 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod.


Ffigur 10: Siart bar yn dangos y rhaniad o ymatebion ar gyfer cwestiwn 13 yn yr ymgynghoriad ar gasgliadau'r asesiad rheoliadau cynefinoedd drafft.




**Cwestiwn 14 yn yr ymgynghoriad:** A oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol pellach, yn gadarnhaol neu’n negyddol, i’r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft y credwch y dylid eu hystyried?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Teimlai 12 o ymatebwyr fod effeithiau amgylcheddol arwyddocaol pellach y dylid eu hystyried.


Ffigur 11: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 14 yn yr ymgynghoriad ar effeithiau amgylcheddol arwyddocaol pellach y dylid eu hystyried.




**Cwestiwn 15 yn yr ymgynghoriad:** A oes cyfleoedd pellach i wella unrhyw effeithiau amgylcheddol cadarnhaol neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol y dylid eu hystyried ar gyfer y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol?

Cafwyd 35 o ymatebion i'r rhan hon o'r cwestiwn. Teimlai 16 o ymatebwyr fod cyfleoedd pellach i wella effeithiau amgylcheddol cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol.

Ffigur 12: Siart bar yn dangos rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 15 yn yr ymgynghoriad ar gyfleoedd pellach i wella effeithiau amgylcheddol cadarnhaol neu negyddol.




## Ystyriaethau'r Iaith Gymraeg


Roedd cwestiynau 16 i 19 yn yr ymgynghoriad yn ymdrin ag ystyriaethau'r iaith Gymraeg. Roedd y rhain yn gwestiynau adborth yn unig felly nid oes modd cynhyrchu graffiau ystadegol ar gyfer y rhain. Teimlai'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau ynghylch y Gymraeg fod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y Gymraeg.

## Cwestiynau terfynol

**Cwestiwn 20 yn yr ymgynghoriad:** Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft hefyd yn darparu ystod o wybodaeth sy'n gosod y cyd-destun strategol ar gyfer y cynllun hwn a hefyd yn darparu gwybodaeth am raddfa'r perygl llifogydd ledled Cymru. A oedd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi?

Cafwyd 35 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 32 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n rhannol fod y wybodaeth o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn ddefnyddiol.


Ffigur 13: Siart bar yn dangos y rhaniad o ymatebion i gwestiwn 20 yn yr ymgynghoriad ar ba mor ddefnyddiol yw’r wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.




**Cwestiwn 21 yn yr ymgynghoriad:** Yn gyffredinol, sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o ganfod a llywio'r wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft?

Cafwyd 31 o ymatebion i’r rhan hon o’r cwestiwn. Roedd 27 o ymatebwyr yn cytuno’n llwyr neu’n rhannol eu bod wedi dod o hyd i’r hyn yr oeddent yn chwilio amdano yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.

Ffigur 14: Siart bar yn dangos y rhaniad yr ymatebion i gwestiwn 21 yr ymgynghoriad ynghylch a ddaeth ymatebwyr o hyd i'r hyn yr oeddent yn chwilio amdano yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.



# Themâu allweddol

**Thema:** Blaenoriaethau

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Roedd y sylwadau a gawsom yn ymwneud â Blaenoriaethau'r CRhPLl yn gefnogol ar y cyfan. Cawsom awgrymiadau i wella’r blaenoriaethau, ac fe waaethom ystyried yr awgrymiadau ymhellach, yn enwedig o ran gweithio gyda byd natur a bod yn fwy uniongyrchol gyda’r hyn a fwriedir.

**Camau gweithredu ar gyfer y CRhPLl:** Fe wnaethom ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ac rydym wedi gwneud newidiadau i'r blaenoriaethau o ganlyniad fel bod bwriad pob un yn gliriach i'r darllenydd. Rydym hefyd wedi gwella'r testun sy'n cyflwyno'r blaenoriaethau i egluro i'r darllenydd sut mae'r blaenoriaethau'n ategu ac yn galluogi cyflawni ein hamcan cyffredinol yn effeithiol. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys esboniad bod y blaenoriaethau wedi'u rhifo i helpu i ddangos aliniad y mesurau a nodir yn y CRhPLl hwn, yn hytrach na chael eu rhestru mewn unrhyw ffordd.

**Thema:** Cymunedau mewn perygl

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Cawsom sylwadau penodol yn ymwneud â rhai cymunedau a p’un a ydynt yn cael eu cynnwys neu eu heithrio o’r cynllun. Cawsom hefyd sylwadau am y CRhPLl yn defnyddio cymunedau diamddiffyn ar gyfer blaenoriaethu, gydag awgrymiadau y dylem hefyd gyfeirio at achosion lle mae amddiffynfeydd eisoes yn y cymunedau hyn.

**Camau gweithredu ar gyfer y CRhPLl:** Rydym wedi datblygu offeryn i helpu i nodi'r lleoliadau sy’n wynebu’r  perygl llifogydd mwyaf yng Nghymru. Gelwir hyn y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl, ac mae’n defnyddio’r dystiolaeth a ddarparwyd gan fapiau Asesu Perygl Llifogydd Cymru. Mae'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn defnyddio allbynnau o fodelau llifogydd Asesu Perygl Llifogydd Cymru i ystyried nifer y bobl sydd mewn perygl, y perygl maent yn wi wynebu dros ystod o debygolrwyddau, pa mor gyflym fydd y llifogydd yn dechrau, a'u gallu i ymateb o ran pa mor fregus yw eu sefyllfa o safbwynt cymdeithasol yn sgil llifogydd. Mae’n defnyddio ffactorau megis argaeledd a safon rhybuddion llifogydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd hefyd. Defnyddir y gofrestr i flaenoriaethu cymunedau yn yr adrannau Lle yn y CRhPLl hwn ar gyfer y perygl presennol o lifogydd a rhagfynegiadau ar gyfer perygl llifogydd yn y dyfodol. Trwy’r ymgynghoriad, cawsom sylwadau yn cwestiynu pam fod rhai cymunedau wedi’u cynnwys ac eraill ar goll. Mae'r gofrestr yn blaenoriaethu'r cymunedau hynny sydd mewn perygl o lifogydd ac sydd felly wedi'u cynnwys yn y CRhPLl oherwydd eu bod yn gymunedau lle mae camau gweithredu wedi'u cynllunio yn y blynyddoedd i ddod i helpu i reoli a lleihau'r perygl. Nid yw hyn yn golygu mai dyma'r unig gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd. Mae ein mesurau Cenedlaethol yn yr adran Genedlaethol o’r CRhPLl yn cynnwys prosiectau untro i fynd i’r afael ag angen penodol neu gyflawni gwelliant rheoli perygl llifogydd penodol, yn ogystal â gweithgareddau arferol y mae CNC yn bwriadu eu cynnal i

reoli’r perygl o lifogydd ar gyfer cymunedau ledled Cymru a bydd y rhain yn cwmpasu mwy na dim ond y cymunedau a grybwyllir yn y CRhPLl.

Mae’r CRhPLl yn blaenoriaethu cymunedau fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd oherwydd er y gallai rhywle gael ei warchod gan amddiffynfeydd rhag llifogydd, mae perygl yn dal i fod i’r cymunedau hynny sy’n elwa o’r amddiffynfeydd pe bai’r amddiffynfa’n methu neu’n cael ei goresgyn.

**Thema:** Amcan y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Roedd llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag amcan y CRhPLl yn ymwneud â’r ffaith bod cwmpas yr amcan yn eithaf cul, gydag awgrymiadau i'w wneud yn ehangach.

**Camau gweithredu ar gyfer y CRhPLl:** Fe wnaethom ni ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, ac rydym wedi addasu’r amcan i adlewyrchu cwmpas yr amcan yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru. Ein prif amcan bellach yw ‘lleihau’r perygl i fywyd a chymunedau o ganlyniad i lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a’r môr’. Bwriedir i’n blaenoriaethau ategu ein hamcan cyffredinol yn uniongyrchol, a’n galluogi i’w gyflawni’n effeithiol, felly dylid eu hystyried gyda’i gilydd.

**Thema:** Mesurau lleol y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Cawsom sylwadau penodol am fesurau ar gyfer cymunedau penodol a hefyd sylwadau yn ymwneud â'r angen am fesurau dros y tymor hwy, yn enwedig mewn perthynas â bygythiad newid yn yr hinsawdd.

**Camau gweithredu ar gyfer y CRhPLl:** Gwnaethom ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac rydym wedi diwygio'r amcan i adlewyrchu cwmpas yr amcan yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi ychwanegu adran at bob rhan o'r cynllun sy'n disgrifio'r hyn yr ydym yn ei wneud i baratoi ar gyfer perygl llifogydd yn y dyfodol.

**Thema:** Sut mae'r CRhPLl yn ystyried tir amaethyddol

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Cawsom sylwadau mewn perthynas â thir amaethyddol a sut y caiff ei flaenoriaethu o safbwynt perygl llifogydd.

**Camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd:** Rydym wedi adolygu'r wybodaeth a ddarperir yn y CRhPLl ynghylch sut rydym yn cynllunio ac yn blaenoriaethu cymunedau i sicrhau bod hyn mor glir â phosibl. Rydym hefyd wedi rhannu’r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â pherygl llifogydd a thir amaethyddol â Llywodraeth Cymru.

Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i leihau perygl i gartrefi, felly rydym yn dilyn y cyfeiriad hwn wrth flaenoriaethu ein gwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr effeithiau y mae llifogydd yn ei gael ar fusnesau ac yn fwy cyffredinol ar dir amaethyddol. Rydym hefyd yn cydnabod y cyfle y mae gweithio gyda rheolwyr tir yng Nghymru yn ei gynnig i helpu i reoli perygl llifogydd i gymunedau. Rydym wedi ychwanegu rhagor o wybodaeth at y CRhPLl ynghylch ein hymagwedd at Atebion Seiliedig ar Natur (gweler isod) sy'n cynnwys mentrau i weithio gyda rheolwyr tir a'u cefnogi.

**Thema:** Atebion sy'n seiliedig ar natur

**Sylwadau'r ymgynghoriad:** Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn teimlo nad oedd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn cynnwys digon am Atebion yn Seiliedig ar Natur.

**Camau gweithredu ar gyfer y CRhPLl:** Rydym wedi ychwanegu'r adran ganlynol ar Atebion sy'n Seiliedig ar Natur i egluro sut mae CNC yn gweithredu hyn drwy gydol ein gwaith.

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn amlygu atebion sy'n seiliedig ar natur fel blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn ateb sy'n seiliedig ar natur i helpu i leihau perygl llifogydd ac mae'n ategu dulliau eraill o reoli perygl llifogydd. Pan gaiff y dull ei gyflwyno'n gywir, gall hefyd ddarparu llawer o fuddion eraill, megis creu cynefinoedd, storio carbon, gwella ansawdd dŵr, a helpu i gynyddu gwytnwch yn erbyn sychder.

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn hyrwyddo dull Rheoli Llifogydd yn Naturiol, gan amlygu'r manteision lluosog y mae'n eu darparu yn ogystal â phennu cyfeiriad er mwyn cyflawni mwy yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn diffinio Rheoli Llifogydd yn Naturiol fel mesurau sy'n cynnwys gweithio gyda phrosesau naturiol a seilwaith gwyrdd fel y dangosir yn y continwwm isod (Ffigur 15)

Ffigur 15 Continwwm arfarnu opsiynau o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Hydref 2020




Mae gweithio gyda phrosesau naturiol yn golygu gweithio ar draws y dirwedd i warchod, adfer neu ddynwared y prosesau hydrolegol naturiol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymdreiddiad dŵr, arafu llif y dŵr ar draws y dirwedd, storio dŵr, a dal gwaddod yn ôl. Mae

mesurau Gwyrdd a Gwyrdd-Llwyd yn tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd o fewn ac o amgylch y derbynyddion sydd mewn perygl ac fe'u defnyddir fel arfer ar y cyd â mesurau eraill (peirianneg) i helpu i wella ansawdd dŵr, morffoleg, a gwytnwch ecosystemau ochr yn ochr â lleihau'r perygl o lifogydd i bobl a chymunedau.

Fel sefydliad rydym am arwain trwy esiampl, gan gyflawni ein hamcanion corfforaethol i ddiogelu a gwella natur, ymateb i argyfwng yr hinsawdd, a lleihau llygredd. Mae gan fesurau Rheoli Llifogydd yn Naturiol y potensial i gyflawni yn erbyn yr amcanion hyn ac rydym yn defnyddio'r continwwm uchod i gefnogi ein penderfyniadau wrth weithio i leihau'r risg a chynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae CNC yn gyfrifol am reoli perygl ac effeithiau llifogydd o brif afonydd gydag adnoddau a chyllid yn cael eu cyfeirio at y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl. Gall Rheoli Llifogydd yn Naturiol chwarae rhan bwysig, gan ategu'r holl gamau gweithredu eraill a amlinellir yn y cynllun hwn, ond efallai na fydd Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn addas ar gyfer pob un o ddalgylchoedd y prif afonydd gan y dangosir yn gyffredinol ei fod yn fwy effeithiol mewn ardaloedd sydd wedi'u lleoli'n agos at gyrsiau dŵr llai, neu i fynd i'r afael â llifogydd dŵr wyneb.

Mae CNC yn cydnabod bod Rheoli Llifogydd yn Naturiol ar raddfa dalgylch yn rhan bwysig o ddull integredig o reoli perygl llifogydd, ac o ystyried y cyd-fuddion amgylcheddol, mae'n allweddol ar gyfer gwella gwytnwch cyffredinol y dalgylchoedd. Mae darparu dull Rheoli Llifogydd yn Naturiol mewn dalgylchoedd yn gofyn am gydweithio effeithiol ar draws sefydliadau a rhwng partneriaid, rhanddeiliaid, a thirfeddianwyr sydd i gyd yn chwarae rhan mewn hyrwyddo, cefnogi a chyflawni gweithgareddau i leihau'r perygl o lifogydd ac effeithiau llifogydd. Mae CNC yn gweithio yn y ffyrdd a ganlyn i fwrw ymlaen â gweithredu dull Rheoli Llifogydd yn Naturiol yng Nghymru.

- manteisio ar gyfleoedd i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur yn ein gweithgareddau Rheoli Perygl Llifogydd, lle bo'n briodol ac effeithiol gwneud hynny
- chwilio am gyfleoedd drwy ein gwaith ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- gweithio gyda phartneriaid i ddarparu dulliau dalgylch
- dylanwadu ar bolisïau a strategaethau ehangach i gefnogi ein rôl wrth reoli llifogydd o brif afonydd
- cefnogi gweithgareddau sy'n sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

# Crynodeb o'r ymatebion i Adroddiadau Amgylcheddol y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

**Adroddiad Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Roedd y rhai a ymatebodd i'r Adroddiadau Amgylcheddol yn gefnogol ar y cyfan, er bod llawer wedi ateb yn nodi nad oeddent yn gwybod. Er bod gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'u pennu mewn deddfwriaeth, bydd angen i ni ystyried sut y gallwn wneud Adroddiadau Amgylcheddol yn fwy hygyrch a dealladwy mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd rheoli tir mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd. Bydd hyn yn cynnwys dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i leihau dŵr ffo. Dylid chwilio am gyfleoedd i reoli tir a dŵr mewn ffordd gydweithredol.

Roedd ymatebwyr yn dymuno gweld mwy o ystyriaeth i effeithiau llifogydd ar amaethyddiaeth a bywyd gwyllt. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac wrth i brosiectau gael eu datblygu o'r CRhPLl. Roeddent hefyd o’r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar wella bioamrywiaeth drwy fesurau rheoli perygl llifogydd, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Natur. Mae gwella bioamrywiaeth trwy ein gweithrediadau yn ddyletswydd gyfreithiol ac rydym yn ceisio darparu cyfleoedd o'r fath trwy ein prosiectau. Mae blaenoriaethau'r CRhPLl wedi'u diwygio i wneud hyn yn fwy eglur.

Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn cefnogi cynnwys Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (HIA) yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac argymhellodd fod HIA hefyd yn rhan o ddatblygiad prosiect. Mae CNC yn datblygu dulliau gweithredu HIA mewn prosiectau cyn y ddeddfwriaeth ddisgwyliedig.

Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd o’r farn y gallai dangosyddion monitro ar gyfer iechyd y boblogaeth gael eu hehangu’n sylweddol i fonitro effeithiau llifogydd ar iechyd a llesiant. Byddai CNC yn croesawu cydweithio ag ICC i atal dyblygu ymdrech ac i gydnabod pwysigrwydd effeithiau iechyd llifogydd y tu hwnt i berygl i fywyd.

Mynegwyd pryder ynghylch gweithredu Polisi Rheoli Traethlin ar raddfa leol ac yn arbennig drwy reoli asedau. Roedd yr ymatebydd o'r farn nad oedd yr asesiad yn rhoi digon o sylw i'r effaith ar ffactorau hinsoddol. Un o'r cyfleoedd allweddol a godwyd oedd ystyried cynnwys o fewn mesurau lleol y lleoliadau lle mae angen gweithredu addasiadau arfordirol o ganlyniad i bolisi rheoli traethlin yn ystod oes y CRhPLl hwn. Mae’r Rhaglen Addasiadau Arfordirol yn cynnwys prosiectau o amgylch arfordir Cymru. Mae rhai o'r rhain wedi eu cynnwys yn y mesurau lleol ee Llanw Dyfi, ond nid yw rhai wedi eu cynnwys oherwydd natur sensitif y wybodaeth.

Bydd y tîm Rheoli Perygl Llifogydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Rheoli Tir yn Gynaliadwy i reoli Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Mae’r CRhPLl yn nodi cymunedau sydd mewn perygl er mwyn helpu i benderfynu a allai rhaglenni cwympo coed fynd y tu hwnt i drothwy dalgylch ac felly mae angen eu cyflwyno fesul cam, neu wneud

addasiadau tebyg, i leihau’r perygl o lifogydd, yn unol â Chanllaw Ymarfer UKFS 2022 ar ddylunio a rheoli coedwigoedd a choetiroedd. i leihau perygl llifogydd.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed rhwng y CRhPLl2 drafft a’r fersiwn derfynol. Bydd y Datganiad o Fanylion yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r CRhPLl2 a fabwysiadwyd. Pwrpas y Datganiad o Fanylion yw dangos:

1. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd ail gylch CNC;
2. Yr ystyriaeth a roddwyd i’r Adroddiad Amgylcheddol;
3. Yr ystyriaeth i'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol;
4. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ail gylch CNC, fel y’i mabwysiadwyd, yng ngoleuni’r dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy; a’r
5. Mesurau sydd i'w cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu’r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ail gylch.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Drafft**

Unwaith eto, dywedodd ymatebwyr fod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft yn dechnegol ac yn anodd ei ddeall. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i gyhoeddi Asesiadau Rheoli Cynefinoedd, ond lle byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn cyhoeddi crynodeb annhechnegol. Byddwn yn datblygu hyn ar gyfer Asesiadau Rheoli Cynefinoedd yn y dyfodol.

Roedd CNC yn ymateb fel Corff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB) ac yn cytuno â’r casgliad na fydd CRhPLl Cymru yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd o’i ystyried ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft yn sgrinio prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac sy'n destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect. Fodd bynnag, roedd gan CNC (Corff Cadwraeth Natur Priodol) rai pryderon ynghylch y ddibyniaeth ar Asesiadau Rheoli Cynefinoedd parhaus, a gofynnodd am eglurder ynghylch beth fyddai’r goblygiadau i’r asesiad hwn a’r CRhPLl ei hun pe na bai’r Asesiadau Rheoli Cynefinoedd parhaus hynny yn gallu sicrhau na fyddai effeithiau andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd Asesiadau Rheoli Cynefinoedd ar lefel prosiect, gan gynnwys y rhai sydd ar y gweill, yn gorfod mynd drwy’r broses o randdirymu.

Er mwyn rhoi hyder pellach yn y dull gweithredu byddwn yn sgrinio unrhyw brosiectau sydd ar y gweill i'w cynnwys yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol.

Roedd CNC (fel Corff Cadwraeth Natur Priodol) yn cefnogi'r ddibyniaeth ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Rheoli Traethlin 2, fodd bynnag, dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd nodi casgliadau'r asesiad hwnnw'n glir. Yn benodol, gan gyfeirio at y ffaith nad yw unrhyw brosiectau o fewn meysydd polisi adlinio a reolir wedi'u hasesu ac y dylid eu hystyried ar lefel prosiect, ynghyd ag unrhyw brosiectau nad ydynt yn unol â pholisi'r Cynllun Rheoli Traethlin. Os, am unrhyw reswm, mae mesur a gategoreiddiwyd fel 'dim ymyrraeth weithredol' yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Rheoli Traethlin 2 gwreiddiol, ac felly wedi cael ei asesu gan nodi na fydd yn effeithio o gwbl, wedi newid (neu'n mynd i newid ar ryw adeg yn y dyfodol) i gategori 'Dal y llinell', bydd angen ei ystyried unwaith eto ar lefel prosiect. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd canllawiau Fforwm Grŵp Arfordir Cymru ar Broses Newid Polisi Mawr Cynllun Rheoli Traethlin 2 yng Nghymru[1] yn berthnasol. Y newidiadau mawr yw: 'Newidiadau i bolisi, neu gyfnod pan fydd polisi yn cael ei weithredu, neu newidiadau i'r cynllun gweithredu sy'n debygol o arwain at hyn'. Gellir ystyried newid polisi sylweddol os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg sy'n awgrymu y gellid cyfiawnhau newid. Neu lle bwriedir tynnu gweithgareddau cynnal a chadw yn ôl, bydd ein harweiniad gweithredol yn berthnasol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael ei ystyried yn y penderfyniad i dynnu'n ôl.

Roedd CNC (fel Corff Cadwraeth Natur Priodol) yn cefnogi'r asesiad cyfunol, gan gynnwys y 7 datganiad ardal a chytunwyd bod y meini prawf wedi'u bodloni i ohirio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i lefel prosiect, gan hefyd ystyried mesurau lliniaru cyffredinol.

Mae CNC (fel Corff Cadwraeth Natur Priodol) yn cwestiynu diffyg prosiectau addasu arfordirol yn y mesurau lleol, ar wahân i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal y Gogledd-orllewin. O ystyried y ddibyniaeth ar gydymffurfio â pholisi Cynllun Rheoli Traethlin 2 yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Datganiad Ardal Forol, mae CNC (fel Corff Cadwraeth Natur Priodol) yn cwestiynu a oes modd diystyru effeithiau cyfunol. Mae'r Rhaglen Addasiadau Arfordirol yn cynnwys prosiectau o amgylch arfordir Cymru. Mae rhai o'r rhain wedi eu cynnwys yn y mesurau lleol ee Llanw Dyfi, ond nid yw rhai wedi eu cynnwys oherwydd natur sensitif y wybodaeth. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn diystyru effeithiau cyfunol.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd ac i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r CRhPLl drafft. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol yn cael ei gyflwyno i CNC a

[1] Fforwm Grŵp Arfordir Cymru. 2019. Cynlluniau Rheoli Traethlin, Canllawiau i Broses Newid Polisi Mawr yng Nghymru.

Natural England fel Corff Cadwraeth Natur Priodol a bydd angen i CNC (tîm Rheoli Perygl Llifogydd) roi sylw i'r cyngor a roddir wrth fabwysiadu'r CRhPLl2.

# Y camau nesaf

Mae croeso i unigolion gysylltu â ni os ydynt yn awyddus i ddilyn cynnydd eu hymatebion, neu sylwadau a wneir yn y ddogfen hon mewn mwy o fanylder.

Cysylltwch â:

Rachel Sion,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Tŷ Cambria,
29 Heol Casnewydd
Caerdydd,
CF24 0TP

E-bost: flood.risk.management.plan@naturalresources.gov.uk

Ffôn: 0300 065 3000

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'u defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol a gyhoeddir ar ein gwefan erbyn diwedd 2023.